HAF 2021

Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo

17 Mai 2021 – Fersiwn 4.0

Cynnwys

	Tudalen
1. Pwrpas	**2**
2. Cyflwyniad	**2**
3. Beth fydd Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn eu mesur yn ystod haf 2021 a sut maen nhw'n cael eu defnyddio?	**3**
4. Sut y dylid llunio dyfarniadau Graddau a Bennir gan Ganolfannau?	**3-5**
5. Cofnodion gwneud penderfyniadau	**5-6**
6. Prosesau sicrhau ansawdd	**6-7**
7. Datganiad gan Bennaeth y Ganolfan	**7-8**
8. Adolygiad canolfannau o brosesau Graddau a Bennir gan Ganolfannau ac apeliadau	**8-9**
9. Ymgeiswyr preifat	**9-10**
10. Gwybodaeth a chymorth i ddysgwyr	**10-11**
11. Cydraddoldeb	**11**
12. Prosesu data a diogelu data	**11-12**
13. Monitro ac adrodd ar drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy haf 2021	**12**
14. Crynodeb o'r wybodaeth a'r canllawiau sydd i'w darparu i ganolfannau	**12-13**
14.1. Fframweithiau asesu cymwysterau	
14.2. Cefnogaeth dysgu broffesiynol	
14.3. Canllawiau eraill	
15. Atodiad 1	**14-15**
16. Atodiad 2	**16-19**

Haf 2021: Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo[1]

17 Mai 2021 – fersiwn 4.0

1. Pwrpas

1.1. Mae'r fersiwn hon o'r canllawiau yn nodi gwybodaeth lefel uchel wedi'i diweddaru ar gyfer canolfannau[2] am y gofynion ar gyfer cynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau (GBG) yn haf 2021. Y bwriad yw nodi safbwyntiau polisi a chyfeirio at ganllawiau a chymorth gweithredol manylach a ddarperir gan CBAC. Mae'r holl brosesau wedu'u datblygu mewn trafodaeth â CBAC, y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, a rhanddeiliaid eraill.

1.2. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â threfniadau haf 2021. Fe'i cefnogir gan ddogfennau canllaw amrywiol sy'n rhoi mwy o fanylion, y mae bron pob un ohonynt wedi'i chyhoeddi gan CBAC. Mae dyddiadau allweddol, dyddiadau dangosol ar gyfer canolfannau a dyddiadau allweddol i ddysgwyr wedi'u cynnwys yn y llinellau amser yn Atodiad 1.

1.3. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon wedi'i datblygu ar y cyd â'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni. Mae'r grŵp hwn o benaethiaid ac arweinwyr colegau wedi ystyried cynllun prosesau'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod mor deg â phosibl i ddysgwyr ac i gydbwyso hyn â'r gofynion y mae'r gyfres eithriadol hon yn eu gosod ar ganolfannau.

1.4. Er hwylustod, nodir adrannau ychwanegol neu wedi'u diweddaru yn fersiwn 4 gan far fertigol ar yr ymyl ar y chwith.

2. Cyflwyniad

2.1. Yn absenoldeb cyfres arholiadau, ac aflonyddwch parhaus i addysgu a dysgu, bydd canolfannau'n pennu'r graddau TGAU, UG neu Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr yn haf 2021.

2.2. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o'r penderfyniadau y mae angen i athrawon eu gwneud, sut y dylent wneud y penderfyniadau hynny a pha fathau o dystiolaeth y dylid eu defnyddio i gefnogi'r penderfyniadau hynny. Bydd y rhain yn cefnogi Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC ac yn cael eu hategu gan ganllawiau pellach. Er bod angen hyblygrwydd, mae'n bwysig hefyd fod rhywfaint o gysondeb mewn dulliau ar draws Cymru yr haf hwn.

2.3. Mae galluogi dysgwyr i symud ymlaen i'w cam dysgu nesaf ac i gyflogaeth yn flaenoriaeth, felly dylai canolfannau anelu at integreiddio asesiadau o fewn eu cynlluniau addysgu a dysgu.

[1] Mae trefniadau amgen ar gyfer y cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau wedi'u cyfleu ar wahân: Cymwysterau Cymru / Tystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - Dyfarnu yn haf 2021 (qualificationswales.org)

[2] Canolfan(nau) yw'r term a ddefnyddir trwy'r ddogfen i gyfeirio at ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill.

3. Beth fydd Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn eu mesur yn ystod haf 2021 a sut maen nhw'n cael eu defnyddio?

3.1. Rhaid dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfannau Haf 2021 ar sail cyrhaeddiad amlwg mewn meysydd o gynnwys y cymhwyster y mae dysgwr wedi'u hastudio.

3.2. Er y bydd y dull o gynhyrchu'r Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn holistig ei natur, mae angen iddo fod wedi'i seilio ar dystiolaeth ddigonol o gyrhaeddiad amlwg ar draws themâu a sgiliau allweddol. Efallai y byddai'n briodol hefyd ystyried unrhyw ystyriaethau arbennig fel rhan o hyn.

3.3. Nid yw'r safon a ddisgwylir ar gyfer unrhyw radd benodol yn ddim is na blynyddoedd blaenorol ond mae'n anochel y bydd maint y gwaith a gwblheir yn y fanyleb yn is gan lawer o ddysgwyr. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn cael yr un graddau ar ôl astudio gwahanol gyfrannau o'r fanyleb.

3.4. Ni ddylai Graddau a Bennir gan Ganolfannau haf 2021 geisio nodi potensial mewn pwnc oherwydd, ar ôl colli cymaint o ddysgu, byddai hyn yn hollol oddrychol a byddai'n anodd dangos tystiolaeth ohono. Rhaid i ganolfannau ddarparu sail resymegol a thystiolaeth gadarn ar gyfer dyfarnu'r holl Raddau a Bennir gan Ganolfannau fel y gallant fod yn sicr eu bod wedi pennu'r radd gywir ar gyfer dysgwr ac y gallant gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd pe derbynnid cais am adolygu'r radd neu apêl.

4. Sut y dylid llunio dyfarniadau Graddau a Bennir gan Ganolfannau?

4.1. Mae CBAC wedi darparu Fframweithiau Asesu Cymwysterau sy'n nodi'r gofynion i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer pob cymhwyster.

4.2. Dylai canolfannau egluro eu dull asesu i'w dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, fel bod tryloywder a hyder yn y dull sydd i'w fabwysiadu. Mae CBAC wedi rhoi cyngor manwl i ganolfannau am y gofynion ar gyfer polisïau asesu yn ei ddogfen Canllaw ar Bolisi Canolfannau (ar ei wefan ddiogel).

4.3. Ni ddylai canolfannau ddarparu manylion penodol am y cyn-bapurau, os yw'n berthnasol, na'r cwestiynau asesu a fydd yn cael eu defnyddio. Mae'n bwysig bod yr asesiadau a ddefnyddir i gefnogi dyfarniadau yn darparu cynrychiolaeth gywir a dilys o lefel cyrhaeddiad y dysgwr. Bydd hyn yn cael ei ystumio os oes gan y dysgwr wybodaeth flaenorol o'r cwestiynau a ofynnir.

4.4. Rhaid i dystiolaeth asesu ddod o waith a gwblhawyd gan y dysgwr, ar **gynnwys y fanyleb wedi'i addasu**, yn ystod y cwrs astudio ar gyfer y cymhwyster. Gall tystiolaeth gynnwys tystiolaeth ymarferol lle bo hynny'n briodol. Gellir cwblhau gwaith a aseswyd yn amgylchedd yr ysgol neu gartref ond mae angen sicrhau canolfannau mai gwaith y dysgwr ei hun ydyw.

4.5. Ni ragnodir nifer y darnau na'r math o dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi dyfarniadau, gan y bydd hyn yn amrywio yn ôl cymhwyster ac yn ôl sut y trefnir themâu a sgiliau allweddol mewn asesiadau. Ni fyddai ychwaith yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i ganiatáu amrywiad mewn cyd-destun rhwng canolfannau. Mae angen i'r gofyniad am dystiolaeth gefnogi penderfyniad cadarn, diduedd y radd gywir ar gyfer dysgwr. Efallai y byddai ychydig o ddarnau

o dystiolaeth glir yn ddigonol i ddangos cyrhaeddiad ar draws themâu allweddol trosfwaol ar gyfer llawer o gymwysterau.

4.6. Bydd CBAC yn darparu hen bapurau i ganolfannau eu defnyddio wrth benderfynu pa dasgau y bydd dysgwyr yn eu cyflawni a fydd yn cyfrannu at eu Gradd a Bennir gan Ganolfannau gyffredinol. Lle bo angen, bydd y papurau hyn yn cael eu haddasu i ystyried yr addasiadau sydd eisoes ar waith. Gallai tystiolaeth asesu gyfrannol ddod o amrywiaeth o weithgareddau a allai gynnwys ffug arholiadau, hen bapurau eraill a ddarparwyd gan CBAC, NEA a gwaith asesedig arall. Cynghorir deunyddiau asesu CBAC, lle y bo'n briodol, gan eu bod yn asesiadau hygyrch a theg o ansawdd sicr, gyda chynlluniau marcio profedig.

4.7. Ni fydd pwysiadau cynnwys neu sgiliau yn cael eu rhagnodi yn Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC gan na fyddai hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd i ganolfannau.

4.8. Gallai tystiolaeth ar gyfer dysgwyr unigol amrywio, yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac unrhyw ystyriaethau arbennig a allai fod wedi cael eu hystyried. Dylai canolfannau sicrhau rhesymeg dros unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn tystiolaeth rhwng dysgwyr a chofnodi hyn yn glir yn eu cofnodion gwneud penderfyniadau.

4.9. Ar ôl ystyried tystiolaeth, dylai athrawon a darlithwyr lunio dyfarniadau holistig, sy'n gweddu orau sy'n ddigolledol.

4.10. Mae TGAU, UG a Safon Uwch yn ddigolledol mewn cyfnodau arferol. Mewn perthynas â dyfarniadau graddio sy'n gweddu orau, mae hyn yn golygu:

- Nid oes rhaid i ddysgwyr ddangos pob agwedd ar y disgrifydd i dderbyn y radd honno.
- Er nad oes unrhyw wybodaeth, sgil na dealltwriaeth 'hanfodol' y mae'n rhaid i ddysgwr fod wedi eu dangos i gyflawni gradd, mae'n bwysig bod tystiolaeth o gyrhaeddiad ar draws digon o ehangder o gynnwys.
- Gall dysgwyr gyflawni'r un radd trwy arddangos gwahanol gyfuniadau o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Gall cryfderau mewn rhai meysydd gydbwyso diffygion mewn meysydd eraill.

4.11. Bydd Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC yn cynnwys disgrifyddion graddau a fydd yn cefnogi'r broses hon, i 'angori' dyfarniadau ar draws yr ystod graddau.

4.12. Bydd canolfannau'n defnyddio eu barn broffesiynol ac yn penderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangosir yn cwrdd â'r safon arferol a ddisgwylir ar gyfer y radd.

4.13. Mae dyfarnu Gradd U a Bennir gan Ganolfan yn briodol lle nad oes digon o dystiolaeth o gyrhaeddiad wedi'i ddangos i ddyfarnu gradd sy'n gweddu orau o G (ar lefel TGAU) neu E (UG neu Safon Uwch) neu lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyrhaeddiad yn is na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y radd isaf.

4.14. Rhaid i Raddau a Bennir gan Ganolfannau fod â rhesymeg glir a diamwys i gyd-fynd â nhw ynghylch pam a sut y dewiswyd tystiolaeth a sut y ffurfiwyd dyfarniad. Bydd CBAC yn rhoi canllawiau ynghylch y cofnod gwneud penderfyniadau ar 24 Mawrth.

5. Cofnodion gwneud penderfyniadau – *bydd CBAC yn darparu arweiniad pellach*

5.1. Rhaid i ganolfannau roi prosesau ar waith i ddogfennu'n gyson y rhesymeg dros benderfyniadau graddio ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys unrhyw drefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig a gymhwyswyd. Mae angen i gofnodion gwneud penderfyniadau ddarparu eglurder i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr. Bydd CBAC yn darparu cymorth drwy sicrhau bod templedi cofnodi gwneud penderfyniadau ar gael i ganolfannau.

5.2. Mae angen i ran o'r broses hon sicrhau bod y ganolfan yn cydymffurfio â'i Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.[3] Mae yna hefyd ddyletswyddau penodol i Gymru sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.[4] Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi paratoi canllawiau ar gyfer canolfannau ar fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd hyn ar gael ar ei wefan yn y dyfodol ac rydym yn anfon copi ohonynt i bob canolfan ochr yn ochr â'r canllaw hwn.

5.3. Rhaid i ganolfannau ystyried addasiadau rhesymol eraill y mae gan ddysgwyr hawl iddynt. Mae canllawiau graddio CBAC yn cynnwys canllawiau ar wahân ar drefniadau mynediad i gefnogi hyn. Dylai canolfannau hefyd weithredu prosesau i sicrhau bod dyfarniadau graddau mor wrthrychol a theg â phosibl, fel eu bod yn sicr eu bod wedi cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb ac osgoi gwahaniaethu. Mae canllawiau ar gael yn y ddogfen ganlynol: 'Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Ysgolion'.[5] Mae canllawiau a hyfforddiant ar wahân ar osgoi rhagfarn ddiarwybod ar gael i ganolfannau i gefnogi hyn. (Mae hyn yn rhan o raglen dysgu proffesiynol CBAC ac mae'n cynnwys sesiwn gydweithredol gyda Diverse Cymru.)

5.4. Bydd y prosesau hyn yn cefnogi canolfannau i ystyried unrhyw adolygiad o Raddau a Bennir gan Ganolfannau ac mewn unrhyw apêl.

5.5. Bydd angen i ganolfannau hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau diogelu data a phrosesu data. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

5.6. Wrth gyflwyno Graddau a Bennir gan Ganolfannau dros dro i CBAC, bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud datganiad cyffredinol mewn perthynas â'r prosesau sydd wedi'u cynnal. Bydd angen i ganolfannau hefyd gyflwyno esboniad o batrwm cyffredinol canlyniadau'r ganolfan, ar lefel gyfanredol, ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, ar adeg cyflwyno'r Graddau a Bennir gan Ganolfannau i CBAC. Nid oes angen i'r esboniad hwn fod yn helaeth ei natur ond mae angen iddo fod yn ddigon i ddisgrifio unrhyw newidiadau cyffredinol ym mhatrwm y canlyniadau ar gyfer canolfan. Ceir rhagor o wybodaeth am fonitro patrymau canlyniadau CBAC yn adran 6.

5.7. Rhaid ei gwneud yn glir i ddysgwyr fod y canlyniadau'n rhai dros dro nes eu bod yn cael eu cyhoeddi'n ffurfiol gan CBAC ar ddiwrnodau canlyniadau. Ni fydd sefydliadau addysg uwch yn defnyddio graddau dros dro ar gyfer prosesau derbyn.

[3] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made
[4] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149
[5] https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-you-education-provider-wales

6. Prosesau sicrhau ansawdd

6.1. Bydd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb mewn penderfyniadau am raddau ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Mae CBAC wedi darparu canllawiau ar yr hyn y mae'n rhaid i'r prosesau hyn ei gynnwys o fewn ei ddogfen Canllawiau ar Bolisi Canolfannau (ar ei wefan ddiogel).

6.2. Bydd CBAC yn gweithredu rhaglen o brosesau sicrhau ansawdd ar gyfer canolfannau allanol. Mae CBAC wedi cyhoeddi manylion am y broses allanol y bydd yn ymgymryd â hi gyda chanolfannau.

6.3. Cyn cyflwyno graddau i CBAC, bydd canolfannau'n cael eu cefnogi i drafod eu proses, eu cymhwysiad o'r broses, a'u canlyniadau, gyda chanolfannau eraill ledled Cymru. Mae hyn y tu allan i brosesau sicrhau ansawdd CBAC a'r tu allan i fframwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru ond bydd yn rhan o'r broses gyffredinol i gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion.

6.4. Er na fydd canlyniadau Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn cael eu cymedroli'n allanol, unwaith y bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn derfynol i CBAC, bydd proffiliau graddau yn cael eu hadolygu a gallai unrhyw broffiliau annodweddiadol gael eu trafod gyda'r ganolfan.

Trafod canlyniadau annodweddiadol – *bydd CBAC yn darparu arweiniad pellach*

6.5. Fel yr amlinellwyd yng nghyfeiriad polisi'r Gweinidog Addysg, unwaith y cyflwynir graddau i CBAC, bydd proffiliau cyffredinol y ganolfan yn cael eu hystyried, a bydd proffiliau graddau annodweddiadol yn cael eu trafod gyda'r canolfannau. Y bwriad yw bod hyn yn darparu cam olaf tuag at ddiogelu dilysrwydd a hygrededd canlyniadau i ddysgwyr yng Nghymru yn haf 2021. Mae hyn yn adeiladu ar rannau eraill o'r trefniadau sicrhau ansawdd sydd wedi'u datblygu er mwyn sefydlu rhywfaint o gysondeb o ran y dulliau a ddefnyddir yn haf 2021. Ni fydd CBAC yn gweithredu i newid canlyniadau, sydd eleni'n dibynnu ar arfer barn broffesiynol o fewn canolfannau.

6.6. Yn y gyfres eithriadol hon, nid oes ffordd syml, ddelfrydol o nodi pa ganlyniadau y gellid eu hystyried yn annodweddiadol. Mae dull wedi'i ddatblygu i arwain canolfannau, a darparu tryloywder ar eu cyfer, ac i lywio'r broses o ddynodi canolfannau gan CBAC lle y gallai fod angen trafodaeth bellach am batrwm cyffredinol y canlyniadau.

6.7. Bydd disgwyl i bob canolfan greu sail resymegol ar gyfer ei chanlyniadau **cyffredinol** ar gyfer pob math o gymwysterau (h.y. canlyniadau cyffredinol ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch). Dylai'r canlyniadau cyffredinol/cyfanredol fod ar gyfer cymwysterau cymeradwy a gynigir gan CBAC ac ni ddylent gynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch neu gymwysterau eraill fel BTECs. Ni fydd angen egluro rhesymwaith y ganolfan yn ôl pwnc, er y gallai canolfannau ddewis cynnwys cyfeiriad at bynciau unigol yn y rhesymeg dros y canlyniadau cyffredinol. Rhaid i resymeg y ganolfan esbonio patrwm y canlyniadau cyffredinol a gyflwynwyd gan y ganolfan yr haf hwn. Gallai gyfeirio

at: newidiadau sylweddol yn nata cyrhaeddiad blaenorol y garfan, newidiadau ym maint carfanau, newidiadau i strwythurau'r ysgol (e.e. uno ysgolion, newid i fod yn ysgol un rhyw / gymysg, newidiadau i gyfnodau ac ati), a gwybodaeth gyd-destunol sy'n gysylltiedig â chanolfannau newydd.

6.8. Defnyddir goddefiannau i arwain lefel y rhesymeg ac a ddylid ei gyflwyno i CBAC. Bydd y goddefiannau'n cael eu cymhwyso i ganlyniadau'r flwyddyn orau o ganlyniadau cyffredinol y ganolfan o ganlyniadau 2017, 2018 a 2019[6] ar gyfer pob math o gymhwyster (TGAU, UG neu Safon Uwch).

- Nid yw'r goddefiannau'n gosod cap ar ganlyniadau'r ganolfan, ac nid ydynt ychwaith yn gosod targedau i anelu atynt – fe'u sefydlwyd i ddarparu tryloywder i ganolfannau ynghylch canlyniadau a fydd yn sbarduno gwahanol lefelau o graffu ar batrwm y canlyniadau ar lefel canolfan.
- Bydd y raddfa oddefgarwch yn seiliedig ar wahaniaethau +3 phwynt canran i +7 pwynt canran ar raddau allweddol[7] ar gyfer canlyniadau'r flwyddyn orau o ganlyniadau cyffredinol y ganolfan o 2017, 2018 a 2019. Nid yw'r goddefiannau'n ymwneud â mesurau pwynt perfformiad Llywodraeth Cymru.
- Er enghraifft, os nad yw canlyniadau cyffredinol canolfan yn fwy na 3 phwynt canran uwchlaw ei chanlyniad gorau yn y blynyddoedd hynny, nid oes angen ei cyflwyno i CBAC yna mae'n debygol mai dim ond sail resymegol lefel uchel iawn sydd eu hangen.
- Os yw canlyniadau cyffredinol canolfan 7 pwynt canran neu fwy yn uwch na'r gorau o ganlyniadau cyffredinol y ganolfan o 2017, 2018 a 2019, yna byddai angen sail resymegol fanylach ac eu cyflwyno i CBAC.

6.9 Rhagor o enghreifftiau:

Canolfan A – y canlyniadau cyffredinol mewn cymwysterau TGAU cymeradwy mewn graddau A*-C oedd 67% yn 2017, 62% yn 2018 a 64% yn 2019. Mae hynny'n golygu bod y canlyniadau TGAU A*-C cyffredinol gorau yn 2017 (67%). Os yw A*-C y ganolfan yn 78% eleni, yna mae fwy na 7 pwynt canran yn uwch na'r gorau blaenorol, felly dylid darparu rhesymeg lawn sy'n caniatáu dealltwriaeth gadarn o'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd anarferol o fawr mewn graddau uwch.

Canolfan B – y canlyniadau cyffredinol mewn cymwysterau Safon Uwch cymeradwy mewn graddau A*-A oedd 25% yn 2017, 32% yn 2018 a 34% yn 2019. Mae hynny'n golygu bod y canlyniadau A*-A cyffredinol gorau ar Safon Uwch yn 2019 (34%) . Os yw A*-A y ganolfan ar Safon Uwch yn 37% eleni, yna mae ychydig dros y gorau blaenorol, felly dylid darparu rhesymeg fer. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau cyffredinol mewn cymwysterau Safon Uwch cymeradwy mewn graddau A*-E yn 92% yn

[6] Ni fydd canlyniadau haf 2020 yn rhan o'r canlyniad cyfartalog gan fod y prosesau yn haf 2020 yn unigryw, heb fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac wedi arwain at lefel sylweddol o amrywiad rhwng canolfannau. Roedd canlyniadau yn 2017, 2018 a 2019 yn destun prosesau dyfarnu sefydledig ac mae canlyniadau yn 2021 yn destun prosesau sicrhau ansawdd.

[7] At ddibenion y broses hon, diffinnir graddau allweddol fel a ganlyn: TGAU: A*, A*-A, A*-C ac A*-F; UG: A, A-C ac A-E; Safon Uwch: A*, A*-A, A*-C ac A*-E.

2017, 96% yn 2018 a 95% yn 2019. Mae hyn yn golygu bod y canlyniadau gorau cyffredinol ar raddau A*-E yn 2018 (96%), felly byddai'r rhesymeg yn gwneud y gymhariaeth â 2018 ar gyfer yr ystod gradd honno.

6.10 Bydd CBAC yn darparu pecynnau data ar gyfer canolfannau a fydd ar gael trwy ei wefan ddiogel i gefnogi ysgolion a cholegau yn y dadansoddiad hwn. Bydd y pecynnau data hyn yn dangos y canlyniadau cyffredinol/cyfanredol yn ôl pob math o gymhwyster (nid yn ôl pwnc) ar gyfer y blynyddoedd 2017, 2018 a 2019. Bydd canolfannau'n gallu defnyddio'r pecynnau hyn i gefnogi eu dadansoddiad os dymunant.

6.11 Bydd CBAC yn nodi canolfannau sy'n gymwys i gael trafodaeth bellach.. Efallai y bydd angen i CBAC flaenoriaethu canolfannau ar gyfer trafodaethau proffesiynol o ystyried yr amserlenni sydd ar gael ar gyfer y broses. **Ni fydd CBAC yn ymyrryd i newid canlyniadau cyffredinol canolfannau** ond gallai ofyn i ganolfannau ailedrych ar eu canlyniadau os na ellir cyfiawnhau patrwm y canlyniadau gan y rhesymeg a gyflwynir.

7. Datganiad gan Bennaeth y Ganolfan

7.1. Pan fydd canolfan yn cyflwyno ei Graddau a Bennir gan Ganolfannau, rhaid i bob Pennaeth Canolfan hefyd gyflwyno datganiad sy'n cadarnhau bod y graddau wedi'u pennu gan y ganolfan yn briodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at yr agweddau canlynol ar broses haf 2021, er mwyn rhoi sicrwydd i CBAC:

- Y darparwyd cyfathrebiadau i bob dysgwr o ofynion tystiolaeth asesu a'r broses raddio
- Bod cofnodion gwneud penderfyniadau ar gyfer pob dysgwr wedi'u cwblhau
- Bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol wedi'u cwblhau yn unol â pholisi'r ganolfan a gofynion CBAC
- Yr adolygwyd proffil canlyniadau cyffredinol y ganolfan
- Bod pob dysgwr wedi cael cyfle i ofyn am adolygiadau'r ganolfan o'u graddau
- Y caiff tystiolaeth asesu ei storio'n ddiogel a'i bod ar gael i'w hadolygu os oes angen
- Yr ystyriwyd materion cydraddoldeb, gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig, a bod y ganolfan yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Y cwblhawyd prosesau diogelu data (e.e. asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ac adolygiadau o hysbysiadau preifatrwydd)

8. Adolygiad canolfannau o brosesau graddau a bennir gan y ganolfan ac apeliadau – *bydd canllawiau a manylion terfynol yn dilyn*

8.1. Fel y nodwyd yng nghyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 20 Ionawr 2021, bydd tri cham i'r broses apelio:

Cam 1 – adolygiad gan y ganolfan o'r radd dros dro a bennwyd gan y ganolfan ar sail bod gwall wedi'i wneud wrth bennu'r radd.

Cam 2 – apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud.

Cam 3 – cais i Cymwysterau Cymru i'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

8.2. Cam 1 – bydd cam adolygu'r ganolfan yn caniatáu i ddysgwyr ofyn am adolygiad o'r radd a bennwyd gan y ganolfan. Gellir cwblhau hyn cyn neu ar ôl cyflwyno graddau a bennir gan y ganolfan i CBAC. Bydd angen i ganolfannau ddarparu mecanwaith effeithiol i ddysgwyr ofyn am adolygiad y ganolfan o'u gradd dros dro. Bydd y broses hon yn debyg i'r broses sy'n ofynnol mewn blwyddyn arferol pan fydd dysgwr yn gallu apelio yn erbyn unrhyw farciau asesiadau di-arholiad canolfan ar lefel canolfan cyn i'r marciau gael eu cyflwyno i CBAC. Mae angen hysbysu dysgwyr yn glir y gallai adolygiad gradd olygu y bydd eu gradd yn cynyddu, na fydd eu gradd yn newid, neu y bydd eu gradd yn gostwng. Os caiff ei gwblhau ar ôl cyflwyno graddau i CBAC yn y lle cyntaf, bydd angen i'r ganolfan hysbysu CBAC o unrhyw newidiadau angenrheidiol erbyn 20 Gorffennaf.

8.3. Mae gradd a bennir gan y ganolfan yn radd dros dro hyd nes y cyhoeddir graddau cymwysterau gan CBAC ar ddiwrnodau canlyniadau. Ni fydd sefydliadau addysg uwch yn defnyddio graddau dros dro ar gyfer prosesau derbyn.

8.4. Bydd CBAC yn darparu arweiniad ar broses adolygu canolfannau, gan gynnwys dogfennau i gefnogi cysondeb a hydrinedd ar draws canolfannau. Bydd angen i benaethiaid canolfannau sicrhau bod prosesau ar waith i hwyluso'r adolygiad mewnol o raddau, a allai gynnwys:

- Nodi person addas i oruchwylio adolygiadau, nad oedd yn rhan o'r broses wreiddiol o benderfynu ar y radd. (Nid yw hyn yn atal y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol rhag bod yn rhan o'r broses adolygu. Nid oes disgwyl i'r ganolfan ddod o hyd i arbenigwr pwnc annibynnol fel rhan o'r broses.)
- Sut y bydd yn rhoi gwybod i ddysgwyr am y penderfyniadau gradd a wnaed a'r dystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad arni – er enghraifft, y cofnod gwneud penderfyniadau.
- Trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr os ydynt yn dymuno cyflwyno apêl Cam 2 i CBAC.

8.5. Cam 2 – bydd apeliadau i CBAC yn caniatáu i ddysgwyr apelio ar y sail bod y dyfarniad academaidd y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud. Bydd y broses hon yn cael ei chynnal unwaith y bydd y canlyniadau wedi'u rhyddhau'n ffurfiol ar y diwrnodau canlyniadau perthnasol. Mae angen ei gwneud yn glir y gallai apêl arwain at radd uwch, dim newid neu radd is.

8.6. Cam 3 – bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) i alluogi dysgwyr i ofyn am adolygiad ar y sail nad yw CBAC wedi dilyn ei broses ddatganedig.

8.7. Mae CBAC wedi cyhoeddi canllawiau ar brosesau apelio Cam 1 a Cham 2, a bydd canllawiau terfynol manwl ar gael o 17 Mai.

9. Ymgeiswyr preifat

9.1. Mae opsiynau i sicrhau mynediad at raddau cymwysterau i ddysgwyr nad ydynt ar gofrestr canolfan ac a fyddai fel arfer yn cofrestru ar gyfer y cymwysterau hyn fel ymgeiswyr preifat yn cael eu cwblhau.

9.2. Lle mae gan ganolfannau berthynas sefydledig[8] â dysgwyr a oedd i fod i ennill un neu ragor o gymwysterau cymeradwy fel ymgeiswyr preifat, yna gall trefniadau barhau yn ôl y bwriad.

9.3. Ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt berthynas sefydledig â chanolfan, bydd y canlynol yn berthnasol:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod canolfannau sy'n barod i dderbyn ymgeiswyr preifat, a bod y rhain ar gael ac yn hygyrch mewn digon o ardaloedd yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gefnogi'r costau sydd ynghlwm wrth dderbyn ymgeiswyr preifat.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o ganolfannau sy'n barod i dderbyn ymgeiswyr preifat erbyn 12 Ebrill ac y gellir cysylltu â nhw ynghylch cofrestru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch cymeradwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r rhestr hon o ganolfannau ar ei gwefan ynghyd â gwybodaeth bellach i ganolfannau ac ymgeiswyr preifat. Bydd dolen i'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefannau Cymwysterau Cymru a CBAC a bydd yn cael ei rhannu drwy rwydweithiau perthnasol.

9.4. Bydd y canolfannau hyn yn cynnal ymgeiswyr preifat a bydd CBAC yn trefnu asesiad addas. Bydd CBAC yn marcio'r gwaith sydd ei angen fel rhan o'r dystiolaeth i lunio barn ar radd a phennu'r radd (bydd hyn yn dilyn yr un broses â gradd a bennir gan ganolfan). Bydd CBAC hefyd yn sicrhau bod proses ar waith i ganiatáu i ymgeiswyr preifat ofyn am adolygiad o radd ar y sail bod gwall wedi'i wneud wrth bennu'r radd. Byddwn yn cyhoeddi canllaw i ganolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat ac yn ei anfon i bob canolfan, fel ei bod yn glir beth fydd y dull cyffredinol. Bydd hwn hefyd ar gael ar ein gwefan.

9.5. Mae dyddiad cau CBAC ar gyfer cofrestriadau yn ddiweddarach eleni, a fydd yn galluogi ceisiadau gan ymgeiswyr preifat i gael eu gwneud.

9.6. Byddwn yn llunio dogfen ar gyfer dysgwyr sy'n rhoi manylion y dull gweithredu, a fydd ar gael ganol mis Ebrill. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion addysg ddewisol yn y cartref Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a grwpiau rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod cyfathrebu mor eang â phosibl fel bod dysgwyr sy'n cofrestru am gymwysterau fel ymgeiswyr preifat yn gwybod beth fydd y broses.

10. Gwybodaeth a chymorth i ddysgwyr

10.1 Drwy gydol y canllawiau hyn, cyfeirir at yr angen i esbonio dull asesu haf 2021 i ddysgwyr. Mae angen i ddysgwyr ddeall sut y cânt eu hasesu yr haf hwn a gwybod pa dystiolaeth fydd yn cael ei defnyddio fel rhan o ddyfarniad cyffredinol eu gradd ar gyfer pob cymhwyster (gweler adran 4). Gall y cofnod

[8] Dysgwr sydd eisoes yn hysbys i'r ganolfan (efallai cyn-fyfyriwr, neu un sydd eisoes wedi mynd at y ganolfan ynglŷn â chofrestru).

gwneud penderfyniadau ar gyfer pob cymhwyster gefnogi'r broses hon (adran 5).

10.2 Dylai dysgwyr sy'n teimlo'n siomedig neu'n anhapus ynglŷn â'u gradd gael eu cefnogi drwy gymorth bugeiliol a lles, a dylai hyn gynnwys sut y gall dysgwyr gael gafael ar wasanaethau cwnsela sydd ar gael yn y lleoliad.

10.3 Mae hefyd yn bwysig bod dysgwyr yn deall beth y gallant ei wneud os ydynt yn credu nad yw un o'u Graddau a Bennwyd gan y Ganolfan yn gywir. Trafodir hyn mewn canllawiau ar yr adolygiad gan ganolfannau o'r broses graddau ac apeliadau yn adran 8. Efallai y bydd angen cymorth ar rai dysgwyr i gael mynediad at adolygiad canolfannau o brosesau gradd ac apeliadau. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol eraill i gefnogi hyn a bydd canllawiau pellach ar gael gennym yn yr haf.

10.4 Yr haf hwn bydd dysgwyr yn gwybod eu graddau dros dro ar gyfer pob cymhwyster. Ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 13, mae hyn yn golygu y byddant yn ymwybodol a ydynt wedi cyflawni'r graddau sydd eu hangen arnynt i gael eu derbyn i'w dewis brifysgol. Rydym yn sylweddoli y gallai hwn fod yn gyfnod pryderus i'r dysgwyr hyn.

10.5 O ystyried yr amser rhwng pan fydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu Graddau a Bennir gan y Ganolfan dros dro a'r canlyniadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod canlyniadau Safon Uwch, byddai'n ddefnyddiol pe bai canolfannau'n nodi eu holl ddysgwyr Blwyddyn 13 nad ydynt wedi bodloni amodau eu cynigion prifysgol ac yn cynnig cymorth iddynt mewn modd rhagweithiol. Bydd prifysgolion yn gwneud penderfyniadau derbyn gan ddefnyddio'r canlyniadau terfynol ac mae'n bosibl y bydd dysgwr yn cael cynnig lle hyd yn oed os nad yw wedi bodloni holl ofynion ei gynnig. Felly mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu cefnogi. Gallai hyn gynnwys:

- Cymorth bugeiliol, gan gynnwys cynigion o wasanaethau cymorth ehangach, megis cwnsela mewn ysgolion, fel ar gyfer dysgwyr TGAU ac UG.
- Canllawiau a gwybodaeth glir am yr hyn sy'n digwydd fel arfer gyda phrosesau clirio prifysgolion. Byddai hefyd yn ddefnyddiol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni a gofalwyr.

10.6. Mae Cymwysterau Cymru wedi ysgrifennu at ddysgwyr ynglŷn â nodweddion allweddol o'r dulliau asesu amgen yn yr haf wrth i fanylion gael eu datblygu. Byddwn hefyd yn cyhoeddi pecyn dysgwyr ym mis Ebrill. Bydd hwn yn nodi'r dull llawn sy'n cael ei ddefnyddio ac yn cyfeirio at amrywiol sefydliadau eraill a all roi cymorth i ddysgwyr.

11. Cydraddoldeb

11.1. Mae'n ofynnol i ganolfannau gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae hyn yn golygu:

- Bydd angen i ganolfannau gyfathrebu â dysgwyr, a rhieni/gofalwyr, mewn modd clir, tryloyw a hygyrch, ac ystyried anghenion y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.
- Yn ystod y broses o wneud penderfyniadau, a ddylai gynnwys dewis tystiolaeth a llunio dyfarniadau graddio cyfannol sy'n gweddu orau, mae'n ofynnol i ganolfannau sicrhau bod dyfarniadau graddau mor wrthrychol a theg â phosibl ac osgoi rhagfarn.

- Mae angen i ganolfannau ddangos tystiolaeth o pam a sut y dewiswyd asesiadau, a dylid cofnodi sut y gwnaed penderfyniad gradd, mewn cofnod gwneud penderfyniadau. Dylai'r cofnod gwneud penderfyniadau roi eglurder i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr a sicrwydd bod y penderfyniad wedi'i wneud yn wrthrychol, yn deg a heb ragfarn. Dylai'r cofnod gwneud penderfyniadau ddarparu tystiolaeth bod y ganolfan wedi cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

11.2. Canllawiau ar y canlynol:

- Bydd canllawiau ar osgoi rhagfarn ddiarwybod ar gael gan Diverse Cymru, a bydd hyfforddiant ar wahân ar wrthrychedd a rheoli rhagfarn ar gael fel rhan o raglen hyfforddi CBAC. Bydd CBAC a Diverse Cymru yn cydweithio i ddarparu rhywfaint o'r hyfforddiant hwn.
- Mae canllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gael gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (bydd CBAC hefyd yn cynnwys dolen i hyn yn ei adnoddau hyfforddi a bydd ar gael ar Hwb).

11.3 Bydd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb mewn penderfyniadau graddau ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau) a dylai'r prosesau hyn hefyd gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd CBAC yn rhoi arweiniad ar yr hyn y dylai'r prosesau hyn ei gynnwys.

11.4 Mae Cymwysterau Cymru wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y dull o asesu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021, fel rhan o'i gydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Caiff hwn ei gyhoeddi ym mis Mai.

12. Prosesu data a diogelu data

12.1 Mae'n ofynnol i bob canolfan gydymffurfio â'i rhwymedigaethau ei hun fel rheolydd data yn unol â deddfwriaeth diogelu data a dylai ymgymryd â'i hasesiad ac adolygiad o'r effaith ar ddiogelu data ei hun ac, os yw'n briodol, diweddaru ei hysbysiadau preifatrwydd. Dylai'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data gael ei gwblhau cyn dechrau prosesu data.

12.2 Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data mewn perthynas â'r dull o ddyfarnu graddau yn haf 2021. Credwn fod graddau a bennir gan ganolfan yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd[9] ac rydym felly'n fodlon bod sail gyfreithlon i bennu graddau. Cyhoeddir ein hasesiad o'r effaith ar ddiogelu data ym mis Mai.

12.3 Dylai canolfannau ystyried yn ofalus degwch defnyddio unrhyw fath penodol o dystiolaeth wrth sefydlu eu cynlluniau asesu, a dylai'r broses hon gael ei llywio gan fframweithiau asesu cymwysterau CBAC. Rydym yn annog canolfannau i fod mor dryloyw â phosibl gyda dysgwyr ynglŷn â'r mathau o dystiolaeth a ddefnyddir wrth bennu graddau dysgwyr, yn ogystal â'r broses a fabwysiadwyd gan y ganolfan ar gyfer pennu graddau.

9 Erthygl 6(1)(e) GDPR, Erthygl 9(2)(g) GDPR a Rhan 2 o Atodlen 1 yn Neddf Diogelu Data 2018 ar gyfer data personol categori arbennig.

13. Monitro ac adrodd ar drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy haf 2021

13.1 Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu fframwaith rheoleiddio ar gyfer cymwysterau cyffredinol cymeradwy yn haf 2021. Cyhoeddir hwn erbyn diwedd mis Ebrill.

13.2 Fel rhan o'n gwaith o fonitro cydymffurfiaeth CBAC yn erbyn y fframwaith hwn a sut mae'r trefniadau amgen yn cael eu gweithredu mewn canolfannau, byddwn yn monitro prosesau a gweithdrefnau CBAC.

13.3 Fel rhan o'n gwaith monitro, byddwn ei gwneud yn ofynnol i CBAC adrodd data allweddol i ni cyn, ac ar ôl, diwrnodau canlyniadau. Mae angen rhywfaint o'r data hwn hefyd fel rhan o'n cyhoeddiadau ystadegau swyddogol. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- data cofrestru,
- data ar brosesau samplu a'r adborth a ddarperir fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd (e.e. ar bolisïau asesu canolfannau),
- data ar ganolfannau y nodwyd bod ganddynt ganlyniadau annodweddiadol a'r camau a gymerwyd, gyda chrynodebau o waith dilynol CBAC,
- canlyniadau cymwysterau, a
- gwaith adolygu gan ganolfannau o geisiadau ac apeliadau graddau, a'u canlyniadau.

14. Crynodeb o'r wybodaeth a'r canllawiau sydd i'w darparu i ganolfannau

14.1 **Bydd fframweithiau asesu cymwysterau yn cael eu darparu gan CBAC a byddant yn cynnwys:**

- lleiafswm cynnwys / sgiliau / themâu allweddol ar gyfer cymhwyster a allai fod yn ofynnol ar gyfer symud ymlaen
- natur ac ansawdd y dystiolaeth (ee asesiadau hen bapurau, tasgau Asesu Di-arholiad, asesiadau eraill wedi'u cwblhau yn y dosbarth)
- barnu'r dystiolaeth (dyfarniadau holistig sy'n gweddu orau wedi'u cysylltu'n glir â disgrifyddion graddau)
- disgrifyddion graddau
- cofnodi'r rhesymeg a'r penderfyniad

14.2 **Cefnogaeth dysgu broffesiynol**

Mae CBAC wedi gweithio ar raglen hyfforddi ac arwain gynhwysfawr i gefnogi canolfannau. Mae'r rhaglen hon yn dechrau ddechrau mis Mawrth ac yn parhau hyd at fis Mai. Ceir cymysgedd o gyhoeddiadau adnoddau, sesiynau wedi'u recordio ymlaen llawn a digwyddiadau Holi ac Ateb byw. Bydd manylion y rhaglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan CBAC ac mae agweddau hefyd wedi'u rhestru yn y llinell amser ddangosol yn Atodiad 1. Bydd y rhaglen yn cynnwys:

- Asesiad i gynnwys osgoi rhagfarn anymwybodol
- Cydraddoldeb a rheoli rhagfarn ymwybodol ac anymwybodol
- Llunio barn ynglŷn â graddau.

14.3 **Canllawiau eraill** – i grynhoi, bydd canllawiau ar y meysydd hyn yn dilyn:

- Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol – gan CBAC
- Cymhwyso ystyriaeth arbennig - gan CBAC
- Sicrhau ansawdd mewnol - gan CBAC
- Osgoi rhagfarn a gwahaniaethu anymwybodol – gan CBAC
- Bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus - gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Adolygiad o Raddau a Bennir gan Ganolfannau ac apeliadau – gan Cymwysterau Cymru a CBAC
- Ymgeiswyr preifat – canllawiau i ganolfannau sy'n derbyn ymgeiswyr preifat – gan Cymwysterau Cymru

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi awgrymu dolenni i ganllawiau a allai fod yn arbennig o berthnasol. Dyma nhw:

Y prif ganllaw ar Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/

O fewn hynny, mae'r adrannau canlynol yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol:

- Canllawiau ar Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs), gan gynnwys templed DPIA a rhestrau gwirio i helpu rheolwyr data i benderfynu a oes angen DPIA: Data protection impact assessments | ICO
- Canllawiau ar yr hawl i gael gwybod, a fydd yn helpu pob rheolydd data sy'n ymwneud â'r broses asesu i ddatblygu a darparu gwybodaeth breifatrwydd o ansawdd da i ymgeiswyr: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/right-to-be-informed/
- Canllawiau ar brosesu data personol categori arbennig, sy'n cynnwys templed dogfen bolisi ar gyfer y prosesu hwnnw: Special category data | ICO

Atodiad 1

a) Llinell amser – Dyddiadau allweddol

Digwyddiad	Dyddiad
CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau ar yr asesu a gofynion sicrhau ansawdd mewnol	5 Mawrth
Canolfannau'n cyflwyno eu polisïau asesu a sicrhau ansawdd mewnol i CBAC	Rhwng 19 a 25 Mawrth
CBAC yn adolygu polisïau canolfannau ac yn rhoi adborth i ganolfannau	12 Ebrill
Penderfyniadau ynglŷn â graddau'n cael eu gwneud mewn canolfannau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol yn cael eu cynnal. Canolfannau'n adolygu ac yn cymeradwyo canlyniadau'n fewnol.	Erbyn 2 Gorffennaf
Ffenestr gyflwyno ar gyfer GBGau	Rhwng 14 Mehefin a 2 Gorffennaf
CBAC yn sicrhau ansawdd cofnodion gwneud penderfyniadau dysgwyr a chanlyniadau cyffredinol	Rhwng 21 Mehefin a 12 Gorffennaf
CBAC yn trafod canlyniadau annodweddiadol gyda chanolfannau a materion sy'n codi o adolygu cofnodion tystiolaeth	13-16 Gorffennaf
Canolfannau'n cyflwyno GBGau diwygiedig yn dilyn prosesau adolygu'r ganolfan	20 Gorffennaf
Canlyniadau UG a Safon Uwch	10 Awst
Cyfnod apelio UG a Safon Uwch	10 Awst – 7 Medi
Canlyniadau TGAU	12 Awst
Cyfnod apelio TGAU	24 Awst – 21 Medi*

(*dyddiad dros dro)

b) Llinell Amser CBAC: Cyhoeddi Canllawiau a Digwyddiadau Hyfforddi

Gweithgaredd	Dyddaid
Hyfforddiant: Sylfeini a chreu asesiadau	5 Mawrth
Canllawiau ar bolisi Canolfannau ar asesu a sicrhau ansawdd	5 Mawrth
Hyfforddiant: Dull canolfannau o asesu a sicrhau ansawdd penderfyniadau graddio	w/d 8 Mawrth
Hyfforddiant: Sesiwn Holi ac Ateb byw	12 Mawrth
Proses apelio lefel uchel	15 Mawrth
Fframweithiau Asesu Cymwysterau Terfynol gan gynnwys disgrifyddion graddau	w/d 15 Mawrth
Canllaw Graddio ar gyfer canolfannau	w/d 15 Mawrth
Deunyddiau asesu ar gyfer canolfannau	w/d 15 Mawrth
Dyddiad cau ar gyfer cofrestru	19 Mawrth
Deunyddiau hyfforddi pwnc-benodol	w/d 22 Mawrth
Canolfannau'n cyflwyno polisïau Asesu a Sicrhau Ansawdd Mewnol i CBAC	19 - 25 Mawrth
Hyfforddiant: Rhagfarn ddiarwybod a gwrthrychedd	22 Mawrth
Hyfforddiant: Sesiwn Holi ac Ateb byw	25 Mawrth

CBAC yn darparu adborth i ganolfannau ar eu polisïau	12 Ebrill
Hyfforddiant Ar-lein: Llunio dyfarniadau terfynol	19 Ebrill
Dyddiad cau ffenestr diwygio cofrestriadau	22 Ebrill
Y broses apelio derfynol	17 Mai
Hyfforddiant: Arferion da wrth wneud penderfyniadau graddio terfynol a Sicrhau Ansawdd	26 Ebrill
Hyfforddiant: Sesiynau Holi ac Ateb byw	5 Mai
Hyfforddiant: Cyflwyno GBGau	17 Mai
Ffenestr gyflwyno ar gyfer GBGau	14 Mehefin – 2 Gorffennaf
CBAC yn sicrhau ansawdd cofnodion penderfyniadau dysgwyr a chanlyniadau cyffredinol	21 Mehefin – 12 Gorffennaf

c) Llinell amser – dyddiadau allweddol i ddysgwyr

Digwyddiad	Dyddiad
Bydd eich ysgol neu goleg yn dweud wrthych sut y cewch eich asesu a'ch graddio ar gyfer eich cymhwyster	Erbyn y Pasg
Byddwch yn derbyn eich Graddau a Bennir gan y Ganolfan dros dro a byddwch yn cael cyfle i ofyn i'ch graddau gael eu hadolygu. Bydd eich ysgol neu goleg yn esbonio'r broses y byddant yn ei defnyddio ac yn dweud wrthych am ganlyniad unrhyw adolygiad.	Ym mis Mehefin
Bydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno'r Graddau **dros dro** a Bennwyd gan y Ganolfan i CBAC.	Erbyn 2 Gorffennaf
Diwrnod Canlyniadau UG a Safon Uwch	10 Awst
Cewch gyfle i apelio yn erbyn eich canlyniad UG neu/a Safon Uwch i CBAC	10 Awst – 7 Medi
Diwrnod Canlyniadau TGAU	12 Awst
Cewch gyfle i apelio yn erbyn eich canlyniad TGAU i CBAC Cewch gyfle i apelio i Cymwysterau Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS)	24 Awst – 21 Medi Ar ôl diwrnod canlyniadau

(*dyddiad dros dro)

Atodiad 2 – rhestr termau haf 2021

DS: Bydd llawer o dermau'n cael eu hesbonio ymhellach yn nogfennau canllaw CBAC

Term a ddefnyddir (yn nhrefn yr wyddor)	Diffiniad o'r term yng nghyd-destun y trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu graddau a bennir gan ganolfannau (GBG) yn haf 2021
Adolygiad canolfan o radd	Os yw dysgwr o'r farn bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu ei radd, rhaid rhoi cyfle iddo ofyn am adolygiad canolfan o'i radd. Dyma gam 1 y prosesau apelio.
Addasiadau rhesymol	Addasiadau a wnaed i arholiad neu asesiad i alluogi ymgeiswyr ag anableddau i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth fel nad yw'r anabledd yn rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais sylweddol o'i gymharu ag ymgeisydd nad yw'n anabl. Ar gyfer haf 21, mae'n ofynnol i ganolfannau hwyluso addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr cymwys lle bo hynny'n briodol.
Apêl	Bydd dysgwr nad yw'n fodlon â'i radd yn gallu apelio yn erbyn ei radd. Bydd tri cham i'r broses apelio: Cam 1 – adolygiad gan y ganolfan o'r radd dros dro a bennwyd gan y ganolfan ar sail barn a/neu bod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud. Cam 2 – apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud. Cam 3 – cais i Cymwysterau Cymru i'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.
Asesiadau teg	Asesiadau sydd wedi'u cynllunio i fod yn deg i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.
Cofnod gwneud penderfyniadau	Cofnod o'r prosesau a ddilynwyd i gynhyrchu gradd pob dysgwr ar gyfer pob cymhwyster gyda sail resymegol i egluro sut y defnyddiwyd tystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad.
Cofrestr y ganolfan	Mae dysgwyr sydd wedi cofrestru gyda chanolfan ar gofrestr y ganolfan, yn wahanol i ymgeiswyr preifat nad ydynt ar y gofrestr.
Cyn-bapurau wedi'u haddasu	Papurau cwestiynau CBAC o gyfresi arholiadau blaenorol sydd wedi'u haddasu yn unol â'r gofynion asesu addasedig ar gyfer pob manyleb yn haf 2021.
Cynnwys manyleb wedi'i addasu	Ym mis Gorffennaf/Awst 2020, gwnaeth CBAC addasiadau i ofynion asesu cynnwys manyleb ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer haf 2021, fel rhan o ofynion Cymwysterau Cymru i liniaru'r amser addysgu a dysgu a gollwyd. Mae'r addasiadau hyn yn dal i fod yn berthnasol.
Cyrhaeddiad y gellir ei ddangos	Cyrhaeddiad dysgwyr y ceir tystiolaeth asesu glir ar ei gyfer.

Datganiad gan Bennaeth y Ganolfan	Bydd angen i benaethiaid canolfannau gyflwyno datganiad i CBAC yn sicrhau CBAC bod yr holl brosesau perthnasol wedi digwydd wrth gynhyrchu GBGau y ganolfan.
Digolledu (cynllun asesu)	Y model asesu a ddefnyddir gan gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, lle gall cryfderau mewn perfformiad mewn rhai meysydd gydbwyso diffygion mewn mannau eraill.
Disgrifyddion graddau	Mae disgrifyddion graddau yn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyflawniad sy'n debygol o fod wedi'u dangos gan ddysgwyr y dyfarnwyd y graddau canlynol iddynt: TGAU – A, C, E a G UG – A, C, E Safon Uwch – A, C, E Bydd angen dyfarniad sy'n gweddu orau ar ddisgrifyddion yn seiliedig ar arbenigedd proffesiynol a'r cyrhaeddiad a ddangoswyd.
Dyfarniad gwrthrychol	Yng nghyd-destun penderfyniadau graddio, mae hyn yn golygu penderfyniadau diduedd yn seiliedig ar dystiolaeth o gyrhaeddiad a ddangoswyd nad yw ffactorau sy'n amherthnasol i raddau yn dylanwadu arnynt.
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau Adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk)
Fframweithiau Asesu Cymwysterau	Dogfennau CBAC sy'n nodi'r canllawiau asesu pwnc-benodol ar gyfer cymwysterau perthnasol yn haf 2021.
Graddau a Bennir gan Ganolfannau	Yn absenoldeb cyfres arholiadau, ac aflonyddwch parhaus i addysgu a dysgu, bydd canolfannau'n pennu graddau'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr yn haf 2021. Gan ddefnyddio tystiolaeth asesu a gynhyrchir gan ddysgwyr, bydd athrawon yn llunio barn sy'n gweddu orau i bennu graddau i ddysgwyr. Mae'r graddau hyn yn seiliedig ar gyrhaeddiad a ddangoswyd, yn hytrach na photensial.
Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni (DDAG)	Sefydlwyd Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i ddatblygu cynigion ymarferol a allai gyflawni polisi'r Gweinidog Addysg ar gymwysterau yn 2021. Cafodd y grŵp ei gadw i ddarparu cymorth rhanddeiliaid ar gyfer gwaith CBAC a Cymwysterau Cymru i ddatblygu manylion y dull gweithredu o fis Ionawr 2021. Cylch gorchwyl: Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni | LLYW.CYMRU
Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi	Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Covid-19) yw cam olaf y broses apelio. Mae Cymwysterau Cymru yn gwirio a yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio â gofynion rheoliadol ac wedi dilyn ei weithdrefnau ei hun.

Proffil canolfan annodweddiadol	Canolfannau sy'n cyflwyno patrymau cofrestru neu ganlyniadau anarferol o uchel neu anarferol o isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
Prosesau sicrhau ansawdd canolfannau allanol	Bydd CBAC yn gweithredu rhaglen i sicrhau ansawdd prosesau pob canolfan. Unwaith y bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn derfynol i CBAC, gellir adolygu proffiliau graddau a gallai unrhyw broffiliau annodweddiadol gael eu trafod gyda'r ganolfan.
Prosesau sicrhau ansawdd mewnol	Bydd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau weithredu prosesau i sicrhau bod graddau a bennir gan ganolfannau yn cael eu cynhyrchu drwy weithdrefnau addas i sicrhau eu bod mor gywir a theg â phosibl cyn eu cyflwyno i CBAC. Bydd CBAC yn darparu canllawiau ar yr hyn y mae'n rhaid i'r prosesau hyn ei gynnwys.
Pwysoliadau asesu	Diffinnir pwysoliadau o ran cynnwys neu sgiliau yn y fanyleb gyhoeddedig. Nid yw Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC yn ei gwneud yn ofynnol cadw at y rhain yn ystod haf 2021.
Rhagfarn ddiarwybod	Rhagfarn ddiarwybod yw'r farn a'r safbwyntiau nad ydym yn ymwybodol ohonynt. Maent yn effeithio ar ein hymddygiad bob dydd a'n penderfyniadau. Mae ein cefndir, ein diwylliant a'n profiadau personol yn dylanwadu ar ein rhagfarn ddiarwybod.
Safon perfformiad	Mae'r safon perfformiad ar gyfer haf 21 yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol, er y gall maint y gwaith a gwblhawyd gan y dysgwr fod yn llai. Ni ddylai fod yn anoddach nac yn haws i ddysgwr ennill y radd berthnasol nag mewn blynyddoedd blaenorol.
Trafodaethau rhwng canolfannau	Mecanwaith i ysgolion gynnal trafodaeth gefnogol gyda'i gilydd a rhannu arfer orau.
Trefniadau mynediad	Mewn blynyddoedd arferol, mae cyrff dyfarnu yn sicrhau bod hawl dysgwr i addasiadau rhesymol yn cael ei fodloni drwy drefniadau mynediad e.e. caniateir amser ychwanegol mewn arholiad ar gyfer dysgwr dyslecsig neu fod gan ddysgwr sydd â nam ar ei olwg bapur wedi'i addasu â ffont mwy o faint. Yn absenoldeb arholiadau, disgwylir i ganolfannau sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i bob dysgwr cymwys gael mynediad i'r asesiad, fel y bo'n briodol.
Ymgeisydd preifat	Dysgwr nad yw wedi'i gofrestru mewn canolfan ac sydd angen canolfan i gytuno i'w gofrestru ar gyfer cymhwyster, fel y gall gwblhau'r asesiadau allanol angenrheidiol (mewn blynyddoedd arferol byddai hyn yn golygu unrhyw asesiad di-arholiad sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster ac arholiadau). Nid

	yw'r dysgwr yn cael ei addysgu gan staff yn y ganolfan fel rhan o ddarpariaeth arferol y ganolfan.[10]
Ystyriaethau arbennig	Ystyriaeth arbennig yw addasiad ôl-arholiad i farc neu radd ymgeisydd i adlewyrchu salwch dros dro, anaf dros dro neu ryw ddigwyddiad arall y tu allan i reolaeth yr ymgeisydd ar adeg yr asesiad, sydd wedi cael, neu sy'n rhesymol debygol o fod wedi cael, effaith berthnasol ar allu ymgeisydd i sefyll asesiad neu ddangos ei lefel cyrhaeddiad arferol mewn asesiad. Ar gyfer haf 2021, dylai athrawon ystyried amgylchiadau dysgwyr unigol a effeithiodd ar y dysgwr ar adeg yr asesiad wrth lunio eu barn broffesiynol a chynhyrchu GBGau.

[10] Dysgwr lle nad oes canolfan berthnasol sydd wedi prynu'r cymhwyster cyffredinol ar ran y dysgwr, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at baratoi'r dysgwr ar gyfer yr asesiad (boed hynny drwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarperir gan athrawon a gyflogir ganddi neu fel arall).